Senedd Cymru
Welsh Parliament

# Cyllideb dirwyn i ben

2 Gorffennaf 2021

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 14 Mai, pan wnaethoch ofyn:

> *Please confirm the "Winding up budget" for each MS that lost their seat in the recent Senydd Election.*

Mae'r **Bwrdd Taliadau,** sy'n annibynnol o'r Senedd, yn gyfrifol am bennu cyflogau, pensiynau a lwfansau Aelodau o'r Senedd a staff cymorth Aelodau o'r Senedd.

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano i'w cael yn y **'Penderfyniad'**.

Gan gyfeirio at eich cais penodol, mae pennod 9.1 o'r Penderfyniad a oedd mewn grym bryd hynny (*Lwfans dirwyn i ben)* yn manylu ar hawl cyn-Aelod ar ddiwedd y Senedd (ar y pryd) a ddiddymwyd ar 29 Ebrill 2021.

Yn gyffredinol, bydd hawliadau am dreuliau'n dod dan un o bedwar prif fath o lwfans:

a) Lwfans Costau Swyddfa (h.y. costau swyddfa sy'n gysylltiedig â'u dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd)
b) Lwfans Costau Ychwanegol (h.y. treuliau yr eir iddynt wrth aros dros nos i ffwrdd o'u prif gartref at ddibenion cyflawni eu dyletswyddau fel Aelodau o'r Senedd)
c) Lwfans Costau Teithio (h.y. costau teithio y bydd Aelodau o'r Senedd yn mynd iddynt oherwydd eu dyletswyddau yn y Senedd)
d) Lwfans Gwariant Staffio (h.y. costau yr eir iddynt yn ymwneud â chyflogi staff).

Cyhoeddir hawliadau am dreuliau sy'n ymwneud â phwyntiau a-c uchod ar ein **system lwfansau,** dri mis ar ôl dyddiad yr hawliad. Sylwch hefyd fod gan gyn-Aelodau dri mis ar y mwyaf i gyflwyno eu hawliadau.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff, CF99 1SN
Ffôn/Tel: 0300 200 6224
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru
Information-request@senedd.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Bydd y lwfans gwariant ar staffio'n cael ei gyhoeddi ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ar ein **gwefan** o dan y pennawd *Lwfans Gwariant ar Staffio a Thaliadau Goramser Aelodau o'r Teulu*.

Oherwydd y bydd yr wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani yn cael ei chyhoeddi maes o law, ni fyddwn yn darparu'r wybodaeth yn awr gan y bydd modd i chi ei gweld pan gaiff ei chyhoeddi. Felly mae'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i heithrio o dan adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae rhesymau eraill pam fo'r eithriad hwn yn berthnasol wedi'u nodi yn yr **Atodiad**.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

**Adran 22**

Mae adran 22 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn darparu:

*(1) Mae gwybodaeth wedi'i heithrio*
*(a) os yw'r wybodaeth yn cael ei chadw gan yr awdurdod cyhoeddus gyda'r bwriad o'i chyhoeddi, gan yr awdurdod neu gan berson arall, rywbryd yn y dyfodol (p'un a yw'r dyddiad wedi'i bennu ai peidio);*
*(b) os oedd y wybodaeth yn cael ei chadw eisoes gyda'r bwriad o'i chyhoeddi pan wnaed y cais am ei gweld, ac*
*(c) os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i beidio â rhyddhau'r wybodaeth tan y dyddiad a nodir ym mharagraff (a).*

Mae adran 22 ar gael os yw'r awdurdod cyhoeddus dan sylw yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ac yn bwriadu ei chyhoeddi ar ryw ddyddiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, o dan yr holl amgylchiadau, rhaid cael achos rhesymol i beidio â rhyddhau’r wybodaeth tan y dyddiad y bwriedir ei chyhoeddi.

Ar hyn o bryd mae’r tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yn gweithio ar hawliadau nifer o gyn-Aelodau. Gan fod cyn-Aelodau yn gallu cyflwyno hawliadau treuliau hyd at dri mis o'r adeg yr eir i'r gost, maent, yn ymarferol, yn debygol o gyflwyno hawliadau unrhyw bryd hyd at ddechrau mis Awst 2021. Felly, efallai nad oes gan y Comisiwn y wybodaeth y gofynnwyd amdani eto, neu efallai nad yw ar gael i’w rhyddhau. Rydym o'r farn ei bod yn rhesymol peidio â rhyddhau’r wybodaeth y gofynnwyd amdani ar hyn o bryd a'i rhyddhau fel y cynlluniwyd ar y system lwfansau neu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol (ar gyfer gwariant staffio) fel rhan o gyhoeddiad ffurfiol pan fydd y wybodaeth wedi'i phrosesu a'i chwblhau.

Mae adran 22 yn eithriad amodol a chan hynny mae angen ystyried "prawf o fudd cyhoeddus".

Mae'r prawf hwn yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried a yw budd y cyhoedd sydd ynghlwm wrth ddatgelu'r wybodaeth ar y cam cynharach hwn yn gorbwyso'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth beidio â datgelu’r wybodaeth.

Er bod budd cyhoeddus i dryloywder yn gyffredinol, byddai rhyddhau gwybodaeth anghyflawn nawr, tra bod y tîm Cymorth Busnes i’r Aelodau yn dal i wirio a phrosesu nifer o hawliadau a lle mae’n bosibl y daw rhagor o hawliadau i law o hyd, yn darparu darlun

anghyflawn a chamarweiniol o gyfanswm yr hawliadau a wnaed gan gyn-Aelodau. Bydd y cyhoeddiadau a gynlluniwyd yn caniatáu i'r ffigurau terfynol gael eu cyhoeddi yn eu cyd-destun llawn ac yn caniatáu i aelodau o'r cyhoedd a phartïon eraill â diddordeb gynnal asesiad cywir o wariant cyn-Aelodau.

Fodd bynnag, gan ein bod yn bwriadu cyhoeddi’r wybodaeth y gofynnoch amdani, nid ydym yn ystyried y bydd y budd cyhoeddus mewn tryloywder yn cael ei beryglu yn sgil datgelu'r wybodaeth fel rhan o gyhoeddiadau a gynlluniwyd, yn hytrach nag ar y cam cynharach hwn.

Bydd cyhoeddi'r wybodaeth yn ystod datgeliadau a gynlluniwyd hefyd yn caniatáu i'r cyhoedd gael mynediad ar yr un pryd i'r wybodaeth lawn, yn hytrach na datgelu gwybodaeth anghyflawn, heb gyd-destun i nifer fach o unigolion.

Gyda hynny, rydym o’r farn bod y budd cyhoeddus a fyddai ynghlwm wrth ddatgelu’r wybodaeth hon yn gynt nag arfer yn gorbwyso'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm wrth gadw at y trefniadau cyhoeddi sy’n bodoli eisoes.